

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

|                                      |  |
|--------------------------------------|--|
| Lleoliad:                            | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:                          |
| Committee Room 4 – Tŷ Hywel          | Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor                                |
| Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021 | Kayleigh Imperato – Dipwrwy Glerc                                |
| Amser: 09.00                         | 0300 200 656373  |
|                                      | <a href="mailto:Deisebau@senedd.cymru">Deisebau@senedd.cymru</a> |

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 38)

**2 Deisebau newydd Covid-19**

2.1 P-05-1050 Ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gynnal pleidlais i gymeradwyo cyfyngiadau lleol cyn eu gweithredu

(Tudalennau 39 – 45)

2.2 P-05-1052 Rhowch godiad cyflog i nyrsys yn unol â'r hyn a roddir i staff rheng flaen eraill yn ystod pandemig COVID-19

(Tudalennau 46 – 53)

2.3 P-05-1075 Peidiwch â gosod terfyn o 15 person ar weithgareddau dan do wedi'u trefnu – fel gwersi nofio a dosbarthiadau ffitrwydd – ar ôl y cyfnod atal byr

(Tudalennau 54 – 57)

2.4 P-05-1087 Rhowch derfyn ar ynysu torfol gan blant ysgol iach!

(Tudalennau 58 – 64)

**Deisebau Newydd Eraill**



**Senedd Cymru**  
**Welsh Parliament**

2.5 P-05-1080 Cyflwyno deunyddiau dysgu gwrth-hiliaeth i blant mewn ysgolion yng Nghymru i leihau troseddau casineb

(Tudalennau 65 – 74)

### **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

2.6 P-05-1084 Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia

(Tudalennau 75 – 83)

2.7 P-05-1098 Dylai rôl Cymru yn hanes trefedigaethol Prydain fod yn bwnc gorfodol mewn ysgolion

(Tudalennau 84 – 92)

2.8 P-05-1086 Dylid creu Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Hanes a Threftadaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

(Tudalennau 93 – 98)

2.9 P-05-1081 Sicrhau bod perchnogion ail gartrefi a thai gwyliau ar rent yng Nghymru yn pleidleisio yn eu prif gyfeiriad yn unig, mewn etholiadau datganoledig a lleol

(Tudalennau 99 – 108)

## **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

### **Addysg**

3.1 P-05-920 Cyllidebu Ysgolion ar gyfer ADY

(Tudalennau 109 – 112)

3.2 P-05-972 Dylid darparu o leiaf bedair awr y dydd o addysg fyw i bob disgyltra bod ysgolion ar gau oherwydd COVID-19

(Tudalen 113)

3.3 P-05-1033 Dylid diddymu ffioedd cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) a diwygio ei drefniant yn llwyr

(Tudalennau 114 – 126)

## **Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

- 3.4 P-05-963 Dylid ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd roi unrhyw fwyd sydd dros ben i elusennau

(Tudalennau 127 – 129)

- 3.5 P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu

(Tudalennau 130 – 136)

## **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- 3.6 P-05-964 Dylid ymestyn absenoldeb â thâl a chymorth ariannol a ddarperir mewn ymateb i Covid-19 i staff cronfa GIG Cymru sy'n agored i niwed a staff sy'n feichio

(Tudalennau 137 – 140)

- 3.7 P-05-1035 Dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth

(Tudalennau 141 – 142)

## **Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

- 3.8 P-05-1013 Rhowch gymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru

(Tudalennau 143 – 146)

- 3.9 P-05-1027 Caniatáu clybiau pêl-droed domestig Cymru i chwarae gemau cyfeillgar, a chaniatáu cefnogwyr i fynd i'r gemau

(Tudalennau 147 – 151)

- 3.10 P-05-1037 Caniatáu i blant fynd i mewn i ardaloedd dan gyfyngiadau symud i barhau i hyfforddi gyda'u clybiau chwaraeon

(Tudalennau 152 – 155)

## **Covid 19 – Diweddariadau i ddeisebau**

## **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

3.11 P-05-1099 Peidiwch â chau'r Sector Lletygarwch (Tafarndai, Bwyta, Caffis)  
heb ddangos tystiolaeth wyddonol

(Tudalennau 156 – 162)

3.12 P-05-1100 Caniatáu i dafarndai a bwyta yng Nghymru weini alcohol / aros  
ar agor ar ôl 6pm

(Tudalennau 163 – 165)

3.13 P-05-1036 Caniatáu swigod cefnogaeth yn ystod y cyfyngiadau symud

(Tudalen 166)

## **Deisebau heb unrhyw gyswilt diweddar gan y deisebydd**

3.14 P-05-826 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion  
brys Llwynhelyg!

(Tudalennau 167 – 168)

3.15 P-05-947 Dylai llythyrau meddygon teulu fod am ddim i fyfyrwyr

(Tudalen 169)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-05-1050 Ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gynnal pleidlais i gymeradwyo cyfyngiadau lleol cyn eu gweithredu

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Caleb Harris, ar ôl casglu cyfanswm o 127 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Yn sgil y gwelliant diweddar yn Senedd y DU gan Syr Graham Brady i'w gwneud yn ofynnol i gael cymeradwyaeth Senedd y DU ar gyfer cyfyngiadau pellach, dylid gwneud yr un gofyniad ar gyfer cyfyngiadau yng Nghymru. Gan fod rhyddid sifil pobl yn cael ei gwtogi, dylid cael cydsyniad democrataidd pobl Cymru trwy gynnal pleidlais Aelodau o'r Senedd cyn gweithredu'r cyfyngiadau. Bydd yn helpu i ddarparu atebolrwydd ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd wedi'u gosod o dan gyfyngiadau lleol oherwydd y coronafeirws.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Mae cydsyniad yn hanfodol gyda'r rheoliadau hyn. Mae gan wleidyddion gyfrifoldeb i gynnal rhyddid sylfaenol pobl, gan ddiogelu bywydau pobl hefyd. Mae hyn yn rhywbeth sy'n galw am gydbwysedd gofalus yn achos y coronafeirws. Yn enwedig pan y gall penderfyniadau gael effaith sylweddol ar y cyhoedd mewn sawl ffordd. Felly, dylai cyfyngiadau pellach gael eu pasio trwy bleidlais fwyafrif yn y Senedd.

Y gwelliant isod yw'r sail ar gyfer y ddeiseb hon.

Testun gwelliant Syr Graham Brady: 'provided Ministers ensure as far as is reasonably practicable that in the exercise of their powers to tackle the pandemic under the Coronavirus Act 2020 and other primary legislation, including for example part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984, Parliament has an opportunity to debate and vote upon any secondary legislation with effect in the whole of England or the whole United Kingdom before it comes into effect.'

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru

# Ei gwneud yn ofynnol i gael pleidlais yn y Senedd dros 'cyfnod clo lleol' cyn gweithredu

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14570-4

Rhif y ddeiseb: P-05-1050

Teitl y ddeiseb: Ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gynnal pleidlais i gymeradwyo cyfyngiadau lleol cyn eu gweithredu

Geiriad y ddeiseb:

Yn sgil y gwelliant diweddar yn Senedd y DU gan Syr Graham Brady i'w gwneud yn ofynnol i gael cymeradwyaeth Senedd y DU ar gyfer gorfodi cyfyngiadau pellach, dylid gwneud yr un gofyniad ar gyfer cyfyngiadau yng Nghymru. Can fod rhyddid sifil pobl yn cael ei gwtogi, dylid cael cydsyniad democraidd pobl Cymru trwy gynnal pleidlais Aelodau o'r Senedd cyn gweithredu'r cyfyngiadau. Bydd yn helpu i ddarparu atebolrwydd ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd wedi'u gosod o dan gyfyngiadau lleol oherwydd y coronafeirws.

Mae cydsyniad yn hanfodol gyda'r rheoliadau hyn. Mae gan wleidyddion gyfrifoldeb i gynnal rhyddid sylfaenol pobl, gan ddiogelu bywydau pobl hefyd. Mae hyn yn rhywbeth sy'n galw am gydbwysedd gofalus yn achos y coronafeirws. Yn enwedig pan y gall penderfyniadau gael effaith sylweddol ar y cyhoedd mewn sawl ffordd. Felly, dylai cyfyngiadau pellach gael eu pasio trwy bleidlais fwyaf yn y Senedd.

Y gwelliant isod yw'r sail ar gyfer y ddeiseb hon.

Testun gwelliant Syr Graham Brady: 'provided Ministers ensure as far as is reasonably practicable that in the exercise of their powers to tackle the pandemic under the Coronavirus Act 2020 and other primary legislation, including for example part 2A of the Public Health



(Control of Disease) Act 1984, Parliament has an opportunity to debate and vote upon any secondary legislation with effect in the whole of England or the whole United Kingdom before it comes into effect.'

## 1. Cefndir y 'cyfyngiadau lleol'

Rhwng dechrau pandemig y coronafeirws ac 8 Medi 2020, bu Llywodraeth Cymru yn gweithredu mesuryddion cenedlaethol i reoli'r feirws.

Ar 8 Medi, ardal Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili oedd y cyntaf yng Nghymru i gael ei ddynodi'n 'ardal diogelu iechyd leol' a oedd yn gorfol dilyn cyfyngiadau lleol. Cyfeiriwyd at hyn ar lafar fel 'cyfnod clo lleol' neu 'cyfyngiadau lleol'. Trafodir y sail gyfreithiol ar gyfer hyn isod.

Erbyn 23 Tachwedd 2020, roedd 17 ardal awdurdod lleol (neu rannau penodol o ardaloedd awdurdodau lleol) o dan gyfyngiadau lleol yng Nghymru.

Ar 23 Tachwedd 2020, cychwynnodd Cymru ar 'gyfnod atal byr' ('firebreak') a oedd yn cyflwyno mesurau cenedlaethol llym, gan ddisodli'r cyfyngiadau lleol.

Ar 30 Hydref 2020, cadarnhaodd y Prif Weinidog na fyddai'r system o gyfyngiadau lleol yn dychwelyd ar ôl i'r cyfnod atal byr ddod i ben ar 9 Tachwedd ac y byddai cyfres newydd o reolau cenedlaethol yn cael eu cyflwyno yn eu lle.

## 2. Seiliau cyfreithiol dros y 'cyfyngiadau lleol'

Ym mis Medi (pan gyflwynwyd y cyfyngiadau lleol am y tro cyntaf), y rheoliadau coronafeirws perthnasol yng Nghymru oedd Rheoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "Prif Reoliadau"). Mae'r rhain wedi eu dirymu a'u disodli ers hynny.

Cyflwynwyd y cyfyngiadau lleol yng Nghymru drwy ddiwygio'r Prif Reoliadau drwy Reoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 ('Rheoliadau Caerffili').

Yn dilyn hynny, gosodwyd ardaloedd awdurdodau lleol ychwanegol dan gyfyngiadau lleol drwy ddiwygiadau 10, 11, 13, 14, 15, 16 a 18 i'r Prif Reoliadau (ynghyd â Rheoliadau Caerffili, y "Rheoliadau Diwygio")

## 3. Gweithdrefn y Senedd

Gwnaethpwyd y Rheoliadau Diwygio gan Weinidogion Cymru o dan y 'Weithdrefn Argyfwng' yn adran 45R o *Ddeddf lechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984*.

Yng Nghymru, gellir gwneud offeryn o dan y weithdrefn hon heb i fersiwn ddrafft o'r rheoliad gael ei gosod a'i chymeradwyo gan benderfyniad y Senedd os yw'n cynnwys datganiad bod y sawl sy'n ei wneud o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny gan fod brys. Roedd pob Rheoliad Diwygio yn cynnwys datganiad o'r fath.

Fodd bynnag, oni bai bod rheoliad a wneir o dan y Weithdrefn Frys yn cael ei gymeradwyo gan benderfyniad y Senedd (h.y. pleidleisiwyd arno a'i gadarnhau) o fewn 28 diwrnod ar ôl ei wneud, bydd yn peidio â chael effaith.

Roedd yr holl Reoliadau Diwygio mewn grym cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan benderfyniad y Senedd.

Fodd bynnag, cadarnhawyd yr holl Reoliadau Diwygio yn ôl-weithredol gan y Senedd o dan y Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Gan fod y rheoliadau mewn grym cyn cael eu cadarnhau, cyfeirir at hyn weithiau fel y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' er nad yw'r term hwn wedi'i gynnwys yn y Rheolau Sefydlog.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a'r Cyfansoddiad wedi adrodd ar yr holl Reoliadau Diwygio, eu trafod yn y Cyfarfod Llawn a'u cadarnhau gan bleidlais yn y Senedd.

## 4. Gwelliant Brady

Ym mis Mawrth, pasiodd Senedd y DU Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n cynnwys pwerau brys i ymateb i bandemig y coronafeirws.

Ar 30 Medi, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, trafododd Tŷ'r Cyffredin gynnig ynghylch a ddylai'r darpariaethau dros dro yn y Ddeddf ddod i ben.

Cyflwynodd Syr Graham Brady AS welliant ("Gwelliant Brady") i'r cynnig a nododd:

[...] as far as is reasonably practicable that in the exercise of their powers to tackle the pandemic [...] Parliament has an opportunity to debate and to vote upon any secondary legislation with effect in the whole of England or the whole United Kingdom before it comes into effect.

Ni chafodd Gwelliant Brady ei ddethol i'w drafod gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1050  
Ein cyf/Our ref FM -/01689/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Seneddpetitions@senedd.wales

11 Rhagfyr 2020

Annwyl Gadeirydd

Dwi'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 19 Hydref. Hoffwn ymddiheuro am yr oedi yn ymateb i chi.

Cafodd y rheoliadau a oedd yn rhoi cyfyngiadau lleol ar waith eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Rhaid i'r holl reoliadau fod yn destun pleidlais, a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo, yn y Senedd. Ceir dwy weithdrefn graffu, y gellir eu dilyn:

- **Y weithdrefn gadarnhaol ddrafft** lle mae'r Senedd yn ystyried rheoliadau, ac yn cynnal pleidlais arnynt, ar ffurf drafft. O dan y weithdrefn hon, ni ellir llofnodi'r rheoliadau, ac ni allant ddod i effaith, hyd nes y cânt eu cymeradwyo drwy bleidlais gan yr Aelodau. Yn unol â'r gofynion gweithredol rhaid i'r rheoliadau drafft gael eu gosod gerbron y Senedd am 21 o ddiwrnodau nad ydynt yn syrthio yn ystod toriad cyn y gellir cynnal dadl arnynt.
- **Y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'** lle caiff y rheoliadau eu gwneud a gallant ddod i effaith yn fuan iawn ar ôl iddynt gael eu llofnodi. Mae'n ofynnol o hyd i'r Senedd eu cymeradwyo cyn pen 28 o ddiwrnodau nad ydynt yn syrthio yn ystod toriad, fel arall byddant yn methu.

Gan fod y sefyllfa cyfredol o ran iechyd y cyhoedd mor argyfngus mae'n rhaid gwneud rheoliadau yn defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', er mwyn i fesurau cymesur allu cael eu cymryd i ymateb yn gyflym i fygythiad i iechyd pobl o ganlyniad i'r coronafeirws.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Mae Llywodraeth Cymru, foddy bynnag, wedi ystyried yn ofalus sut i amserlennu dadleuon ynghylch reoliadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws sydd wedi dilyn y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Rydym wedi ymdrechu i gydbwyso nifer o agweddu:

- Sichau bod Aelodau yn gallu cynnal dadl ynghylch y rheoliadau a phleidleisio a ddylid eu cymeradwyo ai peidio cyn gynted â phosibl wedi iddynt gael eu rhoi yn eu lle
- Sichau y creffir yn briodol ar y rheoliadau drwy ganiatáu amser i'r Aelodau ystyried y manylion yn y rheoliadau ac adroddiad gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd;
- Gofynion Rheolau Sefydlog y Senedd

Yn ystod hynt y pandemig rydym wedi newid ein dull ac rydyn yn amserlennu dadleuon yn gynharach na'r ffenestr o 28 o ddiwrnodau. Erbyn hyn, cynhelir y rhain fel arfer ar y dyddiad cyntaf posibl tra'n cydymffurfio â gofynion y Rheolau Sefydlog.

Rydym hefyd wedi ceisio lliniaru heriau o ran yr amserlen drwy gynnig cyfleoedd eraill i gynnal dadleuon ynghylch cyfyngiadau cyn i reoliadau gael eu gwneud. Er enghraifft, cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfyngiadau'r "cyfnod atal byr" ar 20 Hydref, cyn i Reoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 gael eu gwneud ar 21 Hydref a dod i rym ar 23 Hydref. Rhoddais ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Tachwedd hefyd a oedd yn amlinellu'r drefn arfaethedig ar ôl y cyfnod atal byr, ac atebais gwestiynau maith gan yr Aelodau. Cafodd Rheoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 eu cwblhau wedi hynny, a chawsant eu gwneud ar 5 Tachwedd cyn dod i rym ar 9 Tachwedd.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

## Eitem 2.2

P-05-1052 Rhowch godiad cyflog i nyrssys yn unol â'r hyn a roddir i staff rheng flaen eraill yn ystod pandemig COVID-19

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ffion Rees, ar ôl casglu cyfanswm o 2,078 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi codiad cyflog o 2.8 y cant i feddygon a deintyddion, gan ddatgan bod y codiad cyflog 'yn adlewyrchu ymrwymiad y bobl sy'n gweithio'n galed i ofalu amdanom'.

Fodd bynnag, nid yw staff nyrssio wedi cael eu cynnwys yn y codiad cyflog hwn, er y gwaethaf y ffaith y gwnaeth llawer ohonynt gael y feirws wrth ymgymryd â'u gwaith.

Fel nrys iechyd meddwl newydd gymhwys, rwy'n gofyn i'r Senedd ailystyried y penderfyniad hwn ac i gydnabod ymroddiad staff nyrssio drwy roi iddynt y codiad cyflog y maent yn ei haeddu.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Y cyfiawnhad am beidio â chynnwys staff nyrssio yn y codiad cyflog hwn yw ein bod eisoes yn cael codiad cyflog o 6.2 y cant dros gyfnod o dair blynedd, sef codiad cyflog y byddem wedi'i gael beth bynnag ac nid at ddibenion cydnabod ein gwaith caled yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Mae dwy ran o dair o'r nyrssys sydd wedi cael eu heintio gan Covid-19 yn parhau i ddioddef sgil-effeithiau'r feirws wrth gyflawni eu dyletswyddau fel nyrssys (Nursing Times, 2020).

Ar adeg y ddeiseb hon, mae dros 200 o staff y GIG, gan gynnwys nyrssys, wedi marw o'r coronafeirws yn y DU (The Guardian, 2020). Mae hyn yn dangos bod staff nyrssio yn barod i wneud yr aberth eithaf er mwyn gofalu am ein cleifion, ond eto nid ydynt yn cael codiad cyflog yn unol â chydweithwyr sydd hefyd yn gweithio'n galed.

Yn ôl dadansoddiad diweddaraf Llywodraeth y DU o ddata yn ymwneud â chyfraddau heintio y coronafeirws, sef dadansoddiad a wnaed ym mis Ebrill 2020, roedd 16.2 y cant o'r rhai a heintiwyd yn weithwyr allweddol, gan

gynnwys staff nyrso. Mae'r ffigur hwn yn cyfrif am bron i un rhan o bump o'r achosion sydd wedi'u cadarnhau (y Ganolfan Meddygaeth Seiliedig ar Dystiolaeth, 2020).

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Llanelli
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

# P-05-1052 Rhowch godiad cyflog i nyrsys yn unol â'r hyn a roddir i staff rheng flaen eraill yn ystod pandemig COVID-19

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14570

## Cyflwyniad

**Rhif y ddeiseb:** P-05-1052

**Teitl y ddeiseb:** Rhowch godiad cyflog i nyrsys yn unol â'r hyn a roddir i staff rheng flaen eraill yn ystod pandemig COVID-19

**Testun y ddeiseb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi codiad cyflog o 2.8 y cant i feddygon a deintyddion, gan ddatgan bod y codiad cyflog 'yn adlewyrchu ymrwymiad y bobl sy'n gweithio'n galed i ofalu amdanom'.

Fodd bynnag, nid yw staff nyrsio wedi cael eu cynnwys yn y codiad cyflog hwn, er y gwaethaf y ffaith y gwnaeth llawer ohonynt gael y feirws wrth ymgymryd â'u gwaith.

Fel nyrs iechyd meddwl newydd gymhwys, rwy'n gofyn i'r Senedd ailystyried y penderfyniad hwn ac i gydnabod ymroddiad staff nyrsio drwy roi iddynt y codiad cyflog y maent yn ei haeddu.



Y cyfiawnhad am beidio â chynnwys staff nysrio yn y codiad cyflog hwn yw ein bod eisoes yn cael codiad cyflog o 6.2 y cant dros gyfnod o dair blynedd, sef codiad cyflog y byddem wedi'i gael beth bynnag ac nid at ddibenion cydnabod ein gwaith caled yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Mae dwy ran o dair o'r nysrys sydd wedi cael eu heintio gan Covid-19 yn parhau i ddioddef sgil-effeithiau'r feirws wrth gyflawni eu dyletswyddau fel nysrys (Nursing Times, 2020).

Ar adeg y ddeiseb hon, mae dros 200 o staff y GIG, gan gynnwys nysrys, wedi marw o'r coronafeirws yn y DU (The Guardian, 2020). Mae hyn yn dangos bod staff nysrio yn barod i wneud yr aberth eithaf er mwyn gofalu am ein cleifion, ond eto nid ydynt yn cael codiad cyflog yn unol â chydweithwyr sydd hefyd yn gweithio'n galed.

Yn ôl dadansoddiad diweddaraf Llywodraeth y DU o ddata yn ymwneud â chyfraddau heintio y coronafeirws, sef dadansoddiad a wnaed ym mis Ebrill 2020, roedd 16.2 y cant o'r rhai a heintiwyd yn weithwyr allweddol, gan gynnwys staff nysrio. Mae'r ffigur hwn yn cyfrif am bron i un rhan o bump o'r achosion sydd wedi'u cadarnhau (y Canolfan Meddygaeth Seiliedig ar Dystiolaeth, 2020).

## Cefndir

Mae penderfyniadau ynghylch cyflogau yn y GIG wedi'u datganoli i'r gweinyddiaethau datganoledig, er bod Corff Adolygu Cyflogau'r GIG (y PRB) yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y DU ac i'r Lywodraethau datganoledig. O ran codiadau cyflog ac amodau yn y GIG yn ystod 2020, mae'r sefyllfa fel a ganlyn:

- Ym mis Gorffennaf 2020, cafodd pob grŵp o feddygon a deintyddion godiad cyflog o 2.8 y cant. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghorwyr, meddygon dan hyfforddiant, meddygon arbenigol ac arbenigol cyswllt, ymarferwyr cyffredinol sy'n derbyn cyflog, a deintyddion. Daeth y newid hwn yn sgil argymhellion y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion, a gafodd eu derbyn gan Lywodraeth Cymru;
- Ym mis Medi 2020, cadarnhaodd Lywodraeth Cymru y byddai'r holl staff sy'n gweithio mewn meddygfeydd teulu hefyd yn cael codiad cyflog o 2.8 y cant;

- 1 Ebrill 2020 oedd dyddiad cychwyn trydedd flwyddyn y fargen gyflog tair blynedd a gytunwyd ar gyfer nyrssys y GIG yng Nghymru. Mae Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi nodi bod trafodaethau ynghylch dyfarnu cyflogau nyrssys yn destun cylch ar wahân i'r cylch ar gyfer meddygon, a bod cytundeb aml-flwyddyn wedi'i wneud eisoes â nyrssys. Roedd hyn wedi'i gynnwys mewn codiad cyflog o 6.5 y cant (dros 3 blynedd) a gytunwyd yn 2018 ar gyfer holl staff GIG Cymru, a hynny ar delerau ac amodau'r Agenda ar gyfer Newid.
- Nid oedd staff a gyflogir gan y GIG yn gymwys i gael taliad arbennig y gweithlu gofal cymdeithasol, sef £500, gan Lywodraeth Cymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, nododd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn cydnabod yr heriau a'r pwysau aruthrol sy'n wynebu'r gweithlu iechyd yng Nghymru. Yn y llythyr dan sylw, mae'r Gweinidog yn egluro:

O dan y cytundeb tair-blynedd presennol, gwelir rhai o'r newidiadau pwysicaf a wnaed i arferion gwaith mewn degawd, gan gynnwys amrywiaeth o gynigion sy'n ymwneud â thâl, yn ogystal â chynigion nad ydynt yn ymwneud â thâl, a fydd o fantais i'r staff a hefyd i'r cleifion. Bydd y rhan fwyaf o staff sydd heb gyrraedd lefel uchaf eu band cyflog yn elwa o gael codiad cyflog drwy fod y bandiau cyflog yn cael eu hailstrwythuro – cyflogau cychwynnol uwch, cael gwared ar bwyntiau cyflog sy'n gorgyffwrdd, a graddfeydd cyflog byrrach. Wrth i'r cytundeb tair-blynedd hwn ddod i ben, ac wrth inni ddechrau ar y cylchoedd cyflog ar gyfer Ebrill 2021 i holl staff y GIG, gan gynnwys staff yr Agenda ar gyfer Newid, rydym wedi ymrwymo i gydweithio gyda'n partneriaid, cyflogwyr y GIG a'r undebau, drwy broses adolygu'r corff annibynnol, er mwyn sicrhau y bydd y pecyn gwobrwyd gorau posibl ar waith.

Mae'r Gweinidog yn cadarnhau ei fod wedi gofyn bod y cylch adolygu cyflogau yn cael ei ddwyn ymlaen gyda'r nod o ddarparu adroddiad mor gynnar â phosibl yn 2021. Serch hynny, mae'n egluro mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bennu amserlenni'r cyrff adolygu cyflogau. Mae angen cymorth gan Lywodraeth y DU i

ariannu unrhyw setliad ar gyfer codi cyflogau staff y GIG a holl weithwyr y sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwobrwyd mewn modd teg.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adnoddraig ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/08013/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 19 Hydref ynglŷn â Deiseb Rhif P-05-1052: codiad cyflog i nyrssys y GIG.

Rwy'n ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu pob un o'n gweithwyr iechyd ymroddedig yng Nghymru, ac yn cydnabod y pwysau enfawr sydd arnynt bob amser, yn enwedig yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Ym mis Ionawr 2020, darperais llythyr cylch gwaith i'r ddau gorff sy'n adolygu cyflogau ym maes iechyd, ac sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, (sef y Corff Adolygu Tâl Meddygon a Deintyddion, a Chorff Adolygu Cyflogau'r GIG). Mae'r llythyron blynnyddol hyn yn rhan o gylch blynnyddol y cyrff adolygu, pan fyddant yn darparu cyngor ac argymhellion annibynnol ynglŷn â lefel briodol y dyfarniad cyflog i staff sy'n gweithio yn GIG Cymru.

Roedd y dyfarniad cyflog i Feddygon a Deintyddion, a gyhoeddwyd ar gyfer 2020/2021, yn rhan o broses y cylch blynnyddol.

Ni ofynnwyd i Gorff Adolygu Cyflogau'r GIG wneud unrhyw argymhellion penodol ynglŷn â chyflogau gan fod cytundeb cyflogau yn parhau ar waith, ar ôl i hwnnw gael ei negodi mewn partneriaeth rhwng Cyflogwyr y GIG a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur, a chael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2018. O dan y cytundeb tair-blynedd presennol, gwelir rhai o'r newidiadau pwysicaf a wnaed i arferion gwaith mewn degawd, gan gynnwys amrywiaeth o gynigion sy'n ymwneud â thâl, yn ogystal â chynigion nad ydynt yn ymwneud â thâl, a fydd o fantais i'r staff a hefyd i'r cleifion. Bydd y rhan fwyaf o staff sydd heb gyrraedd lefel uchaf eu band cyflog yn elwa o gael codiad cyflog drwy fod y bandiau cyflog yn cael eu hailstrwythuro – cyflogau cychwynnol uwch, cael gwared ar bwyntiau cyflog sy'n gorgyffwrdd, a graddfeydd cyflog byrrach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth i'r cytundeb tair-blynedd hwn ddod i ben, ac wrth inni ddechrau ar y cylchoedd cyflog ar gyfer Ebrill 2021 i holl staff y GIG, gan gynnwys staff yr Agenda ar gyfer Newid, rydym wedi ymrwymo i gydweithio gyda'n partneriaid, cyflogwyr y GIG a'r undebau, drwy broses adolygu'r corff annibynnol, er mwyn sicrhau y bydd y pecyn gwobrwyd gorau posibl ar waith. Fodd bynnag, rwyf wedi gofyn bod y cylch adolygu cyflogau yn cael ei ddwyn ymlaen gyda'r nod o ddarparu adroddiad mor gynnar â phosibl yn 2021. Serch hynny, yn y pen draw, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bennu amserlenni'r cyrff adolygu cyflogau.

Mae angen cymorth gan Lywodraeth y DU i ariannu unrhyw setliad ar gyfer codi cyflogau staff y GIG a holl weithwyr y sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwobrwyd mewn modd teg.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

## Eitem 2.3

P-05-1075 Peidiwch â gosod terfyn o 15 person ar weithgareddau dan do wedi'u trefnu – fel gwersi nofio a dosbarthiadau ffitrwydd – ar ôl y cyfnod atal byr

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sean McCue, ar ôl casglu cyfanswm o 2,394 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae gweithgareddau a chwaraeon yn rhan o'r ateb i Covid. Mae'r wlad hon yn colli'r frwydr yn erbyn gordewdra a'r potensial cynyddol o salwch iechyd meddwl yn fwy eang yn y boblogaeth, ac mae angen ystyried bod gweithgaredd corfforol yn wasanaeth hanfodol.

O ganlyniad i gyfyngu ar niferoedd, mae sesiynau'n cael eu gwasgaru ar draws amserlen arferol argaeledd lleoliadau, ac yn cyfyngu ar nifer y sesiynau sydd ar gael i unigolyn.

Mae hyn hefyd yn cael effaith ariannol ar glybiau chwaraeon amatur cymunedol.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Er bod y Grantiau Gweithgareddau Lles wedi'u cyrchu, mae clybiau chwaraeon amatur cymunedol o dan bwysau ariannol difrifol.

Ar ôl cyfyngu'r clybiau dan do i 30, gallai gostwng ymhellach i 15 orfodi clybiau chwaraeon amatur cymunedol i aros ar gau.

Yr un yw ein rhwymedigaethau ariannol wedi parhau i fod, er enghraifft costau lleoliad, cyflogau hyfforddwyr ac yswiriannau.

Does yr un o'r rhain wedi lleihau felly mae ein costau y pen wedi cynyddu, ac mae'n anochel y byddant nawr yn dyblu, o leiaf, unwaith eto os bydd y terfyn hwn o 15 person ar chwaraeon dan do yn mynd rhagddo.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dyffryn Clwyd
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1075  
Ein cyf/Our ref DET/03168/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 10 Tachwedd ynglŷn â deiseb P-05-1075.

Drwy'r rheolau cenedlaethol, rydym yn ceisio cydbwys o pwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer corff i lesiant meddyliol a chorfforol pobl, â'r angen i sicrhau bod pobl yn ddiogel ac i ddiogelu'r GIG.

Mae'r rheoliadau presennol ar gyfer chwaraeon ac ymarfer corff o dan do yn adlewyrchu dull Llywodraeth Cymru o gyfyngu ar faint mae pobl yn dod i gysylltiad agos â grwpiau mawr, ac i leihau'r gyfradd trosglwyddo.

Caiff unrhyw un gymryd rhan mewn chwaraeon neu ymarfer corff mewn grŵp o hyd at 30 o bobl yn yr awyr agor neu 15 o bobl o dan do, os yw'n rhan o weithgaredd wedi'i drefnu, sy'n cael ei reoli, er enghraifft, gan gampfa, canolfan hamdden neu glwb chwaraeon. Fel arfer byddai hyfforddwyr neu swyddogion gêm yn cael eu hystyried yn gyfranogwyr, felly, dylai'r terfyn o 30 neu 15 eu cynnwys nhw. Caiff unrhyw un sydd yno i drefnu neu gefnogi'r gweithgaredd, os yw'n gweithio neu'n darparu gwasanaeth gwirfoddol, fod yn bresennol heb gael ei gyfrif yn y terfyn o 30 neu 15. Mae plant o dan 11 oed hefyd yn cael eu heithrio o'r uchafswm yn y cynulliad.

Caniateir i grwpiau ac unigolion ymgynnnull ar yr un pryd hefyd, o dan do ac yn yr awyr agored, lle mae digon o le i wneud hynny'n ddiogel ac yn annibynnol.

Mae gan drefnwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am y safle ddyletswydd i roi pob mesur rhesymol ar waith i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws, gan gynnwys sicrhau bod digon o le i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol.

Nid oes terfyn ar nifer y plant a gaiff hwyluso neu gymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon wedi'i ddatblygu er mwyn datblygiad neu lesiant plant. Rhaid i'r gweithgaredd gael ei drefnu a'i oruchwyliau gan gorff cyfrifol fel clwb chwaraeon, corff cyhoeddus, elusen neu gampfa neu ganolfan hamdden. Cyfyngir ar nifer y plant o dan 18 mlwydd oed a all gymryd rhan yn gyfreithiol gan derfynau'r lleoliad a'r angen i ddigon o oedolion fod yn bresennol i oruchwyliau'r gweithgaredd.

Rydym yn llawn ymwybodol o'r heriau mae'r sector yn eu hwynebu, ac yn ystod blwyddyn sydd wedi bod yn heriol iawn ar gyfer chwaraeon, rydym yn gweithio gyda chyrrf llywodraethu i asesu pa gymorth ychwanegol a all fod ei angen. Ynghynt yn 2020 gwnaethom gyhoeddi Cronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden gwerth £14 miliwn i helpu'r sector ymdopi â'r pandemig, ac i baratoi i ddychwelyd mewn modd diogel a chyfrifol.

Rydym yn parhau i gydnabod yr ymdrech a'r aberth enfawr mae'r cyhoedd a busnesau yng Nghymru wedi eu gwneud i ddiogelu Cymru ac i achub bywydau. Rydym yn parhau i ystyried adborth gan y cyhoedd, a dyma un o'r rhesymau rydym wedi penderfynu i beidio â chynnwys rhagor o gyfyngiadau ar y sector chwaraeon a hamdden pan fydd mesurau ychwanegol yn dod i rym ar 4 Rhagfyr.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

# Eitem 2.4

## P-05-1087 Rhowch derfyn ar ynysu torfol gan blant ysgol iach!

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Victoria Codling, ar ôl casglu cyfanswm o 1,177 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae gorfodi plant i ynysu am 14 diwrnod yn gwneud cymaint o niwed i'w llesiant meddyliol a chorfforol, mae'n anghymesur â'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws yn y lle cyntaf.

Mae rhai plant yn dioddef eu trydydd cyfnod o ynysu mewn tri mis! Mae hyn yn cael mwy fyth o effaith andwyol ar blant ag anghenion ychwanegol neu o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhieni sy'n gweithio (nad ydynt yn ynysu) yn dioddef gan nad yw cyflogwyr bob amser yn cydymdeimlo yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Atebion:

Cyflwynwch brofion Coronafeirws sy'n rhoi canlyniad ar unwaith i blant ysgol sydd, o bosibl, wedi dod i gysylltiad â'r feirws. Mae hyn yn cael ei gyflwyno yn ein cartrefi gofal a'n meysydd awyr, felly pam nad oes modd gwneud hynny yn ein hysgolion?

Er mwyn lleihau'r risg, sef "canlyniad negatif anghywir", gellid cymryd y prawf ychydig o ddyddiau ar ôl yr achos posibl o ddod i gysylltiad â'r feirws.

Bydd unrhyw ostyngiad yn y cyfnod ynysu 14 diwrnod o fudd enfawr i'r plant.

Dylid nodi nad yw'r plant sy'n ynysu erioed wedi dod i gysylltiad â'r plentyn heintiedig (digwydd hyn yn aml mewn ysgolion uwchradd).

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Casnewydd

- Dwyrain De Cymru

# Hunanyngysu disgyblion sy'n dod i gysylltiad â pherson sy'n cael canlyniad positif i brawf COVID-19

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS21/14837-1

Rhif y ddeiseb: P-05-1087

Teitl y ddeiseb: Rhowch derfyn ar ynysu torfol gan blant ysgol iach!

Geiriad y ddeiseb: Mae gorfodi plant i ynysu am 14 diwrnod yn gwneud cymaint o niwed i'w llesiant meddyliol a chorfforol, mae'n anghymesur â'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws yn y lle cyntaf.

Mae rhai plant yn dioddef eu trydydd cyfnod o ynysu mewn tri mis! Mae hyn yn cael mwy fyth o effaith andwyol ar blant ag anghenion ychwanegol neu o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhieni sy'n gweithio (nad ydynt yn ynysu) yn dioddef gan nad yw cyflogwyr bob amser yn cydymdeimlo yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn.

Gwybodaeth ychwanegol:

Atebion:

Cyflwynwch brofion Coronafeirws sy'n rhoi canlyniad ar unwaith i blant ysgol sydd, o bosibl, wedi dod i gysylltiad â'r feirws. Mae hyn yn cael ei gyflwyno yn ein cartrefi gofal a'n meysydd awyr, felly pam nad oes modd gwneud hynny yn ein hysgolion?

Er mwyn lleihau'r risg, sef "canlyniad negatif anghywir", gellid cymryd y prawf ychydig o ddyddiau ar ôl yr achos posibl o ddod i gysylltiad â'r feirws.

Bydd unrhyw ostyngiad yn y cyfnod ynysu 14 diwrnod o fudd enfawr i'r plant.



Dylid nodi nad yw'r plant sy'n ynysu erioed wedi dod i gysylltiad â'r plentyn heintiedig (digwydd hyn yn aml mewn ysgolion uwchradd).

## 1. Crynodeb

Y sefyllfa bresennol, adeg ysgrifennu hyn, yw bod ysgolion yng Nghymru yn darparu **addysg ar-lein tan 18 Ionawr 2021** a dim ond i blant gweithwyr allweddol a disgylion agored i niwed y maent ar agor. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r trefniadau ar ôl y dyddiad hwnnw.

## 2. Rôl 'swigod' mewn ysgolion a diben hunanynysu disgylion

Fel yr amlinellir yn llythyr y Gweinidog, sail resymegol y gofyniad i ddisgylion hunanynysu, pe bai rhywun yn eu 'swigen' yn cael canlyniad positif i brawf COVID-19, yw atal y feirws rhag trosglwyddo'n ehangach yn y gymuned.

Nod 'swigod' yw lleihau nifer y disgylion y mae achosion COVID-19 mewn ysgolion yn tarfu ar eu haddysg. Ar gyfer disgylion ysgol gynradd a grwpiau blwyddyn iau mewn ysgolion uwchradd, mae swigod yn fwy tebygol o fod yn ddosbarthiadau. Ar gyfer disgylion ysgol uwchradd hŷn, maent yn debygol o gynnwys grwpiau blwyddyn gyfan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gweithredol i ysgolion.

## 3. Datblygiadau ers ymateb y Gweinidog i'r ddeiseb

Ers llythyr y Gweinidog, ar 2 Rhagfyr 2020:

- Mae Llywodraeth Cymru **wedi lleihau hyd yr amser** y mae'n ofynnol i bobl hunanynysu, ar ôl dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19, o 14 diwrnod i 10 diwrnod (cyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2020).

- Penderfynodd y Gweinidog Addysg y dylai ysgolion uwchradd a cholegau roi'r gorau i addysg wyneb yn wyneb wythnos yn gynnar cyn y Nadolig, ar 11 Rhagfyr 2020, gan ddarparu addysg ar-lein ar gyfer wythnos olaf y tymor ysgol (cyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2020). Newidiodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd i addysg ar-lein sawl diwrnod cyn diwedd y tymor.
- Cytunodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar ddull cyffredin o ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y Nadolig, lle y byddai ysgolion yn cael hyblygrwydd yn ystod y pythefnos cyntaf o ran sut y maent yn darparu addysg (cyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2020). Y disgwyl oedd y byddai ysgolion yn darparu addysg wyneb yn wyneb i'r rhan fwyaf o'u disgyblion erbyn 11 Ionawr 2021, cyn i'r holl ddisgyblion ddychwelyd yn ystod y dyddiau cyn 18 Ionawr 2021.
- Fodd bynnag, yn dilyn dirywiad arall yn y lefelau trosglwyddo, niferoedd yr achosion a phwysau ar y GIG, argymhellodd pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU ar y cyd ar 4 Ionawr 2021 y dylai Lefel Rhybudd y DU newid o Lefel 4 i Lefel 5.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 4 Ionawr y dylai ysgolion, colebau ac ysgolion annibynnol newid i addysg ar-lein tan ddydd Llun 18 Ionawr 2021. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n defnyddio'r cyfnod hwn i barhau i weithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau i gynllunio ar gyfer gweddill y tymor. Bydd ysgolion yn parhau i fod ar agor i blant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed.
- Ar 4 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr newid i ddysgu ar-lein (heblaw am blant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed) tan hanner tymor mis Chwefror. Yn yr Alban, dim ond i blant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed y bydd ysgolion ar agor, gydag eraill yn dysgu ar-lein tan 29 Ionawr 2021.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1087  
Ein cyf/Our ref KW/06794/20  
Janet Finch-Saunders MS  
Chair, Petitions Committee

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

2 December 2020

Dear Janet,

Thank you for your correspondence in relation to P-05-1087, which refers to the detrimental effects on children who are required to isolate for 14 days due to Covid-19.

Please let me assure you that I understand the disruption that has been caused to education during the ongoing pandemic. Local authorities and schools are required to work closely to agree and implement measures to make our learning environments COVID-19 secure.

We know that the risk to children themselves of becoming severely ill from COVID-19 is very low. However, there remains some on-going uncertainty in transmissibility of the disease by children. Schools are therefore required to implement measures to reduce the risk of transmission, including the concept of 'bubbles', which are designed to ensure any disruption to learning is minimised to as small a group as possible. Our current guidance states any staff member or learner displaying symptoms of COVID-19 must stay at home and arrange a test. Should a learner test positive for coronavirus, the other learners within that bubble may be asked, as part of the Test, Trace and Protect procedure, to self-isolate for fourteen days to prevent wider transmission in the community.

The current medical and scientific advice confirms the self-isolation period is 14 days, this is because it can take up to 14 days for you to develop coronavirus symptoms after you catch the virus and in this time you can pass it on to others. Isolating will reduce the chance of the transmission of coronavirus in Wales and help prevent family, friends and the community from contracting coronavirus, as well as helping to protect the NHS in Wales.

We have been clear that the size of bubbles should be kept as small as possible and that social distancing, reducing the number of contacts and hand hygiene continue to be important measures in reducing transmission. However, every school is different and what works in one setting may not be appropriate in another. Schools should assess their

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 63


circumstances and if class-sized groups are not compatible with offering a full range of subjects or managing the practical logistics within and around school, they can look to implement a year group (or half-year group) sized contact groups. We are working with schools and local authorities to seek ways to implement the bubble approach as effectively as possible within the circumstances of each school setting. We have also provided schools with additional [resources](#) to help reduce disruption.

In response to the suggestions that are made within the correspondence regarding testing, I can confirm that we are currently working with HEIs across Wales on piloting the asymptomatic testing of students and staff using Lateral Flow Devices, and we are considering wider use for these devices across a range of areas including schools.

It is essential that, when it is safe to do so, we will keep schools open during the pandemic. That is why I am pleased that in the recent update to the testing priorities for Wales, education and childcare staff will be given priority in order to keep schools and settings open.

I appreciate this continues to be difficult time. We are continuously monitoring the situation closely and guidance will be kept current based on the latest medical and scientific advice available to us. Please be assured our overall aim is to keep learners in schools and learning safely and we do not want to disrupt their education unnecessarily whilst balancing the need to protect public health interests.

Yours sincerely



**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

## P-05-1080 Cyflwyno deunyddiau dysgu gwrth-hiliaeth i blant mewn ysgolion yng Nghymru i leihau troseddau casineb

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Fatima Altaiy, ar ôl casglu cyfanswm o 4,053 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae angen addysgu plant sut i fod yn wrth-hiliol. Er y bydd cyflwyno hanes pobl dduon a pobl groenliw i'r cwricwlwm yn fuddiol dros ben, mae angen i blant gael sgyrsiau uniongyrchol am hiliaeth a sut i fod yn wrth-hiliol. Bydd hyn yn lleihau'r achosion o fwlio mewn ysgolion ac yn caniatáu i blant dyfu i fyny mewn amgylchedd amlddiwylliannol, waeth p'un a ydynt wedi'u hamgylchynu gan ddiwylliannau eraill ai peidio. Fel hyn, bydd plant yn deall diwylliannau eraill ac yn gorchfygu stereoteipio a gwahaniaethu.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

# Cyflwyno deunyddiau addysgu gwrth-hiliol i blant mewn ysgolion yng Nghymru i leihau troseddau casineb

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14837

Rhif y ddeiseb: P-05-1080

Teitl y ddeiseb: Cyflwyno deunyddiau dysgu gwrth-hiliaeth i blant mewn ysgolion yng Nghymru i leihau troseddau casineb

Geiriad y ddeiseb: Mae angen addysgu plant sut i fod yn wrth-hiliol. Er y bydd cyflwyno hanes pobl dduon a pobl groenliw i'r cwricwlwm yn fuddiol dros ben, mae angen i blant gael sgyrsiau uniongyrchol am hiliaeth a sut i fod yn wrth-hiliol. Bydd hyn yn lleihau'r achosion o fwlio mewn ysgolion ac yn caniatáu i blant dyfu i fyny mewn amgylchedd amlddiwylliannol, waeth p'un a ydynt wedi'u hamgylchynu gan ddiwylliannau eraill ai peidio. Fel hyn, bydd plant yn deall diwylliannau eraill ac yn gorchfygu stereoteipio a gwahaniaethu.



## 1. Y cwricwlwm newydd

Yn amodol ar fod y Senedd yn pasio'r ddeddfwriaeth, cyflwynir y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer plant 3-16 oed ym mhob ysgol a gynhelir, a phob lleoliad meithrin a ariennir yn gyhoeddus, yn raddol o fis Medi 2022 ymlaen. Cyflwynwyd **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r Bil yn nodi beth yw pedwar diben y cwricwlwm:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru **yn seiliedig ar ddibenion yn hytrach na chynnwys**. Nid yw cynnwys dysgu penodol yn cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol presennol.

Mae'r Bil yn nodi chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r elfennau gorfodol ynddynt. Y chwe MDPh yw:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yr elfennau gorfodol yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad fydd: Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chymraeg.

Mae'r Bil yn darparu 'Cod yr Hyn sy'n Bwysig' i nodi cysyniadau allweddol dysgu a phrofiad ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, a bydd yn rhaid i gwricwla ysgolion gwmpasu pob un o'r cysyniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' yn **nogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru**. Bwriad hyn yw darparu'r 'dull cenedlaethol' a fydd, **yn ôl y Gweinidog Addysg**, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain (rhan o'r canllawiau statudol) yn cynnwys rhai canllawiau penodol i athrawon ar gyfer cynllunio eu cwricwlwm o ran hanes. Mae'n nodi y dylai cynllun cwricwlwm ysgol (ymhlith pethau eraill):

- ddatblygu cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau llywodraethiant, economi, grym, arweinyddiaeth, amrywiaeth; diwylliant, ethnigrwydd, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, cyfiawnder, hawliau, goresgyniad, ideolegau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, strwythurau a threfniadaeth gymdeithasol, masnach, amaethyddiaeth a diwydiant, pŵer a phrotest, heddwch, gwrthdaro a chydweithrediad, chwyldro, datganoli ac ymerodraeth.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

### 2.1. Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Ar 21 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Kirsty Williams y byddai'r Athro Charlotte Williams OBE yn cadeirio gweithgor cwricwlwm newydd, sef Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Bydd y gweithgor yn adolygu'r adnoddau sydd ar gael i athrawon ac arfer da, a'r dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Cyhoeddwyd yr adroddiad interim ar 19 Tachwedd 2020. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ddechrau'r gwanwyn. Dywed yr adroddiad:

heb restr lawn o bynciau rhagnodedig yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, a gan fod modd i ysgolion lunio eu cwricwla eu hunain o fewn fframwaith cenedlaethol, mae perygl i'r themâu hyn barhau i gael eu hanwybyddu neu eu gwthio i'r cyrion. Er y bydd dysgu am amrywiaeth, hunaniaeth a pherthyn, cyfiawnder a chydraddoldeb, hawliau a gweithredu cymdeithasol yn orfodol yng nghwricwla ysgolion, nid oes unrhyw ofyniad statudol i addysgu testunau penodol ynghylch hanes hiliaeth ac amrywiaeth, er enghraift hanes caethwasiaeth neu'r Holocost. Mae hyn yn achos pryder.

Mae'r adroddiad yn trafod sut y gellir cyflawni'r themâu hyn heb ragnodi cynnwys penodol nad yw Cwricwlwm Cymru yn ei ganiatáu. Dyma un o argymhellion yr adroddiad:

Datblygu cyfres newydd o adnoddau dysgu a datblygu proffesiynol dwyieithog sy'n edrych yn fanwl ar amrywiaeth yng Nghymru ddoe a heddiw. Dylai'r papurau cefndir hyn, a fyddai'n gwasanaethu pob Maes Dysgu a Phrofiad, gynnwys: [...]

- [c]anllaw naratif ar hanes hiliaeth a gwrth-hiliaeth yng Nghymru.

## 2.2. Bwlio

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres newydd o canllawiau ar gyfer atal a mynd i'r afael â bwlio. Mae'n rhoi canllawiau a gwybodaeth am strategaethau gwrth-fwlio ysgolion, a gwybodaeth am y gwahanol fathau o fwlio, gan gynnwys bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Mae canllawiau ar wahân ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion, plant, pobl ifanc, a rhieni a gofalwyr. Mae'r canllawiau yn nodi:

Mae gwensi unigol neu weithgareddau cryno a chyflym yn llai tebygol o lwyddo na gwaith sydd wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm sy'n mynd ati'n raddol i ymdrin â pherthnasoedd, ymddygiad cadarnhaol a chydnerthedd.

Mae'n nodi y bydd cyfleoedd ar draws pob un o'r chwe MDPN yn y cwricwlwm newydd i ymgorffori ymddygiad cadarnhaol a pharch.

## 3. Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth adroddiad, Hiliaeth yng Nghymru? sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol ynglŷn â hiliaeth yn system addysg Cymru. Roedd y canfyddiadau yn cynnwys:

- Mae hiliaeth yn gyffredin yn system ysgolion Cymru ac mae'n debygol bod athrawon a staff cymorth dysgu yn tanamcangyfrif y sefyllfa yn fawr;
- Mae hiliaeth yn digwydd ar draws gwahanol grwpiau oedran ond y canfyddiad yw ei bod yn fwy cyffredin ar lefel ysgol uwchradd;

- Dywedodd 62 y cant o'r ymatebwyr fod addysg gwrth-hiliaeth yn cael ei haddysgu yn eu hysgol;
- Roedd 89 y cant o'r ymatebwyr o'r farn y dylid ymgorffori addysg gwrth-hiliaeth yn y cwricwlwm. Mae canran yr ymatebwyr sy'n dweud bod eu hysgol yn dysgu gwrth-hiliaeth wedi gostwng ychydig ers 2016, pan ddywedodd 66.6 y cant o'r ymatebwyr fod addysg gwrth-hiliaeth yn cael ei haddysgu yn eu hysgol.
- Nodwyd mai diffyg amser yn yr ystafell ddosbarth oedd yr her fwyaf wrth addysgu disgyblion am hiliaeth. Yr her fwyaf ond un yw hyder athrawon yn y pwnc.

Argymhellodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth fod yn rhaid sicrhau bod addysgwyr yn ymwybodol o leoedd i gyrrchu adnoddau gwrth-hiliaeth.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddar na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1080  
Ein cyf/Our ref KW/06768/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

18 Rhagfyr 2020

Anwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-1080 Cyflwyno deunyddiau dysgu gwrth-hiliaeth i blant mewn ysgolion yng Nghymru i leihau troseddau casineb.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod y broses ddysgu yn fwy cynhwysol, ac yn tynnu ar brofiadau, safbwytiau a threftadaeth ddiwylliannol Cymru heddiw. Fel y gwyddoch, o 2022, bydd [Cwricwlwm newydd i Gymru](#), a fydd yn dechrau cael ei addysgu ym mis Medi 2022.

Un o'r pedwar diben yn y cwricwlwm newydd yw i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu i fod yn ddinasyyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd, sy'n **wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol**, ac sydd hefyd **yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol**.

Mae'r pedwar diben yn rhan o'r fframwaith statudol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i egluro y bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys elfennau gorfodol, gan gynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd yn ofynnol i gwricwlwm pob ysgol gynnwys profiadau dysgu ym mhob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Fframwaith sy'n orfodol i ysgolion eu haddysgu. Mae'r rhain yn sicrhau lefel o gysondeb wrth gynllunio'r cwricwlwm ar draws lleoliadau ac ysgolion, oherwydd cynigir o dan y Bil fod rhaid i ysgolion gynnwys dysgu o gwmpas pob datganiad yn eu cwricwlwm. Mae [datganiadau o'r hyn sy'n bwysig](#) sy'n benodol gysylltiedig ag amrywiaeth.

Bydd y datganiadau hyn yn elfennau gorfodol o gwricwlwm pob ysgol, ar gyfer pob dysgwyr ar bob cam. Ni fydd yn bosibl anwybyddu rôl ganolog a hollbwysig amrywiaeth yng nghwricwlwm unrhyw ysgol. Rhaid i gwricwlwm ysgol neu leoliad gwmpasu hyn felly. Os na fydd yn gwneud, ni fydd yr ysgol neu'r lleoliad yn cyflawni ei ddyletswyddau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru a'r Fframwaith a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn dweud yn glir ei bod yn bwysig i gwricwla ysgolion adlewyrchu ein treftadaeth ddiwylliannol a'n hamrywiaeth, ein hieithoedd a gwerthoedd, hanesion a thraddodiadau ein cymunedau a'n holl bobl.

Penderfynir ar Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar lefel genedlaethol ac mae'n cynnwys gofynion y cwricwlwm, a amlinellir mewn deddfwriaeth, ac ystod o ganllawiau ategol. Mae'r Fframwaith yn rhoi cyfle i bob ysgol yng Nghymru gynllunio eu cwricwlwm eu hunain o fewn dull cenedlaethol sy'n sicrhau lefel o gysondeb.

Mae'n annog ysgolion i adeiladu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu dysgwyr yng nghyd-destun y pedwar diben a'r dysgu a ddiffinnir ar lefel genedlaethol. Mae'n rhoi lle i ymarferwyr fod yn greadigol a datblygu dysgu ystyrlon drwy ystod o brofiadau a chyd-destunau sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr.

Mae canllawiau '[Cynllunio Eich Cwricwlwm](#)' wedi'u cyhoeddi i gefnogi ysgolion wrth weithredu fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Nodwedd arbennig o'r Fframwaith yw ei fod yn gofyn bod ysgolion yn cynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Mae ein dull newydd yn cydnabod:

- o fewn fframwaith cenedlaethol, mai ysgolion ac ymarferwyr yw'r rhai sydd yn y safle gorau i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion eu dysgwyr penodol nhw eu hunain, gan gynnwys pa destunau a gweithgareddau fyddai orau i gefnogi eu dysgu.
- pwysigrwydd dysgu ystyrlon: Nid yw cwricwlwm sy'n canolbwytio ar gynnwys yn gwarantu dysgu ystyrlon, dim ond bod rhai testunau yn cael eu dysgu i amrywiol raddau. Yn lle hyn, mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn anelu at fynegi pa gysyniadau a hanfodion dysgu ddylai fod yn sail i ystod o wahanol destunau, gweithgareddau dysgu a chaffael gwybodaeth.
- yr angen am arloesedd a chreadigrwydd: Ymarferwyr sy'n dewis cynnwys, gan eu galluogi i ddefnyddio'u sgiliau proffesiynol i sicrhau gwell dysgu a gwell deilliannau ar gyfer eu dysgwyr.
- cyfleoedd i athrawon wneud cysylltiadau cryfach rhwng Meysydd a disgyblaethau: Bydd gan ymarferwyr y rhyddid i ddefnyddio testunau a gweithgareddau i gyfuno dysgu ystyrlon o wahanol Feysydd, disgyblaethau a chysyniadau.

Am y rhesymau hyn, nid yw'r Fframwaith yn ceisio rhagnodi rhestr lawn o destunau na gweithgareddau penodol. Nid yw hyn gyfystyr â dweud nad yw'r testunau a gweithgareddau penodol yn bwysig. Yn lle hyn, mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn gosod yr hanfodion dysgu a ddylai fod yn sail i'r testunau a'r gweithgareddau hyn. Mater i ysgolion ac ymarferwyr, gan ddefnyddio canllawiau ac adnoddau, yw penderfynu pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol fydd yn cefnogi eu dysgwyr penodol i wireddu'r pedwar diben.

Mae hawliau dynol, tegwch ac amrywiaeth yn themâu trawsbynciol a ddylai fod yn rhan annatod o feisydd dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r canllawiau ar themâu trawsbynciol o fewn y cwricwlwm yn esbonio sut y dylai fod gan ysgolion ac ymarferwyr fethodoleg ar gyfer cynllunio cwricwlwm sy'n cynnwys, lle bo'n briodol, gyfleoedd i ddysgwyr ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhwngwladol a datblygu dealltwriaeth o addysg cydberthynas a rhywioldeb, addysg am hawliau dynol ac amrywiaeth, a phrofiadau ym maes gyrfaoedd a gwaith.

Bydd gan athrawon y rhyddid i addysgu hanesion niferus ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach ac ni ddylai pori yn straeon pobl a chymunedau Cymru gael ei gyfyngu i wersi hanes yn unig. Mae Cwricwlwm Cymru yn annog dysgwyr i archwilio themâu ar draws y cwricwlwm; gellir addysgu hanesion amrywiol pobl Cymru nid yn unig mewn meysydd fel y Dyniaethau: leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, ond hefyd Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Fel y gwyddoch, penodwyd yr Athro Charlotte Williams OBE, i gadeirio Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd yn yr haf. Mae gwaith y Grŵp yn ymwneud â hanes pobl dduon, ond mae'n mynd y tu hwnt i hynny, i ystyried ystod o ethnigrwydd lleiafrifol a rhan pob un yn stori Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys ymarferwyr ac unigolion profiadol sydd wedi cyfrannu at hanes pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a hanes Cymru.

Mae gwaith y Grŵp yn cael ei gyflawni fesul cam, ac felly mae wedi dechrau cyfrannu at yr addysgu sy'n digwydd y flwyddyn academaidd hon. Yn ystod cam cyntaf y prosiect, edrychodd y Gweithgor ar adnoddau addysgu. Mae wedi cynnal adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau a chynefinoedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ym mhob rhan o'r cwricwlwm, a arweiniodd at gyhoeddi adroddiad interim ar 19 Tachwedd. Mae'r adroddiad hwnnw yn nodi argymhellion cychwynnol, ac fe fydd yr adroddiad terfynol, i'w gyhoeddi yn y gwanwyn, yn edrych ar faterion ehangach gan gynnwys anghenion dysgu proffesiynol.

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n agos â chymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i sicrhau ein bod yn cyd-gynhyrchu deunyddiau ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, ac wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru. Mae'r ddau yn rhan o'n gwaith i flaenoriaethu'r newid diwylliannol, economaidd, addysgol a chymdeithasol ar raddfa eang sydd ei angen i greu Cymru gyfartal a gwrth-hiliol.

Yn y cwricwlwm presennol, mae cyfleoedd i ddysgwyr astudio amrywiaeth a hanes amrywiol, ac mae adnoddau ar Hwb ar bynciau gan gynnwys Hiliaeth, Caethwasiaeth a Chymru, y Mudiad Hawliau Sifil, a'r Genhedlaeth Windrush. Hefyd i gefnogi ein polisi o beidio goddef hiliaeth, rydym wedi gweithio gyda Show Racism the Red Card dros nifer o flynyddoedd i gynhyrchu offer a chynnig hyfforddiant i gynorthwyo ysgolion i nodi a mynd i'r afael â hiliaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu offer, hyfforddiant a chynadreddau codi ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol, a chynhyrchu cyfres o daflenni ffeithiau gwrth-hiliaeth a gyhoeddwyd ar Hwb.

Mae'r disgwyliadau cyffredin a nodir yng *Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn adlewyrchu y bydd ysgolion wedi cyrraedd gwahanol fannau wrth gynllunio eu cwricwlwm. Ei nod yw arwain gwaith ysgolion waeth ble maent ar eu taith. Mae'n caniatáu i ysgolion symud ar gyflymder sy'n briodol iddynt, gan ganiatáu iddynt ymateb i heriau COVID-19 tra hefyd yn eu cefnogi i baratoi yn y tymor hwy ar gyfer diwygio.

Er mwyn helpu i sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd, byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n manylu ar y cymorth y gall ysgolion ei ddisgwyl gan y Llywodraeth a'r system addysg ehangach yn y cyfnod cyn cyflwyno'r cwricwlwm ym mis Medi 2022.

Fel rhan o'r cynllun gweithredu, byddwn yn amlinellu cynlluniau ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol i helpu i'w roi ar waith. Bydd yn tynnu ynghyd ymarferwyr, arbenigwyr a rhanddeiliaid ehangach er mwyn:

- Datrys problemau a mynd i'r afael â chwestiynau gweithredu drwy gydadeiladu;
- Rhannu dealltwriaeth ac arbenigedd ar draws y proffesiwn;
- Casglu gwybodaeth a thynnu ynghyd safbwytiau er mwyn deall cynnydd; nodi problemau a llywio cymorth; a
- Meithrin perthynas rhwng ymarferwyr, arbenigwyr a rhanddeiliaid ehangach.

Nodir ein dull o ymdrin ag adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn Cenhadaeth ein Cenedl, ein strategaeth i wella'r system ysgolion. Cyhoeddwyd diweddariad ym mis Hydref, ac mae ar gael yma:

<https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl>

Rwy'n hyderus y bydd yr adnoddau, y cymorth a'r arweiniad sy'n cael eu datblygu i gefnogi'r cwricwlwm newydd yn grymuso ysgolion i gyflwyno sesiynau dysgu ystyrlon am hanes Cymru a'i chymunedau amrywiol ym mhob maes dysgu a phrofiad ar draws y cwricwlwm.

Rhan o swyddogaeth y rhwydwaith cenedlaethol hefyd fydd adnabod blychau yn yr adnoddau ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd, a helpu ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Bydd angen cydweithio'n agos hefyd gydag amrywiol sefydliadau a fydd yn hanfodol i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd mynediad at adnoddau dysgu o ansawdd da o reidrwydd yn ddigon ar ei ben ei hun, ac y bydd angen darparu cyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol perthnasol i athrawon.

Rydw i'n cydnabod bod angen inni barhau i gefnogi athrawon gyda'u dysgu proffesiynol, i'w helpu i symud ymlaen â'r gwaith o nodi adnoddau, pynciau a chysylltiadau. Er mwyn caniatáu amser a lle i ymarferwyr gydweithio ar draws ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn dysgu proffesiynol, gyda £31 miliwn yn cael ei roi'n uniongyrchol i ysgolion. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y sylfeini dysgu proffesiynol cryf hyn wrth i ni nesáu at 2022.

Yn gywir

**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

## P-05-1084 Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jessica Dyer, ar ôl casglu cyfanswm o 103 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Rhaid cynnwys sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia yn y cwricwlwm. Mae'r hanes yn cael ei gyfleo fel uniad hyfryd dwy wlad dra gwahanol ond mewn gwirionedd, mae'n anwybyddu hanes hawliau dynol. Roedd bob amser yn cael ei addysgu fel ffordd o gadw'r iaith Gymraeg yn fyw drwy ei chyflwyno i un o wledydd De America, ond mewn gwirionedd cafodd pobl Cymru eu cyflwyno i Batagonia i "wareiddio" cymunedau, sy'n deillio o ideolegau hiliol ac nid yw hynny'n cael ei addysgu mewn ysgolion.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Adnoddau:

Welsh in Patagonia, Lucy Taylor

The Welsh in Patagonia, Jeremy Wood

The Welsh Way of Colonisation in Patagonia: The International Politics of Moral Superiority, Lucy Taylor

Patagonia, an Example of Welsh 'Colonialism', Darren Devine

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Caerfyddin a Dinefwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14837

Rhif y ddeiseb: P-05-1084

Teitl y ddeiseb: Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia

Geiriad y ddeiseb: Rhaid cynnwys sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia yn y cwricwlwm. Mae'r hanes yn cael ei gyfleo fel uniad hyfryd dwy wlad dra gwahanol ond mewn gwirionedd, mae'n anwybyddu hanes hawliau dynol. Roedd bob amser yn cael ei addysgu fel ffordd o gadw'r iaith Gymraeg yn fyw drwy ei chyflwyno i un o wledydd De America, ond mewn gwirionedd cafodd pobl Cymru eu cyflwyno i Batagonia i "wareiddio" cymunedau, sy'n deillio o ideolegau hiliol ac nid yw hynny'n cael ei addysgu mewn ysgolion.



## 1. Y cwricwlwm newydd

Yn amodol ar fod y Senedd yn pasio'r ddeddfwriaeth, cyflwynir y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer plant 3-16 oed ym mhob ysgol a gynhelir, a phob lleoliad meithrin a ariennir yn gyhoeddus, o fis Medi 2022 yn raddol. Cyflwynwyd **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**, i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r Bil yn nodi beth yw pedwar diben y cwricwlwm:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru **wedi'i seilio ar ddibenion yn hytrach na chynnwys**. Nid yw cynnwys dysgu penodol yn cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol presennol.

Mae'r Bil yn nodi chwe Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r elfennau gorfodol ynddynt. Dyma'r Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yr elfennau gorfodol o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad fydd: Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chymraeg

Caiff hanes ei addysgu ym **Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau**. Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau hefyd yn cynnwys daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Nid yw'r cwricwlwm newydd yn rhagnadol ac nid yw'n cynnwys rhestr o bynciau y mae'n rhaid i bob ysgol eu haddysgu.

Mae'r Bil yn darparu 'Cod yr Hyn sy'n Bwysig' i nodi cysyniadau allweddol dysgu a phrofiad ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (gan gynnwys y Dyniaethau) a bydd yn rhaid i gwricwla ysgolion gwmpasu pob un o'r cysyniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' yn nogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru. Bwriad hyn yw darparu'r 'dull cenedlaethol' a fydd, yn ôl y Gweinidog Addysg, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Cyhoeddwyd y canllawiau statudol dros dro ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ym mis Ionawr 2020.

Mae'r Canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain gan Lywodraeth Cymru (rhan o'r canllawiau statudol) yn cynnwys rhai canllawiau penodol i athrawon wrth gynllunio hanes yn eu cwricwlwm. Mae hyn yn nodi y dylai'r gwaith o gynllunio cwricwlwm ysgolion (ymhlith pethau eraill):

- ddatblygu cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau llywodraethiant, economi, grym, arweinyddiaeth, amrywiaeth; diwylliant, ethnigrwydd, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, cyflawnder, hawliau, goresgyniad, ideolegau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, strwythurau a threfniadaeth gymdeithasol, masnach, amaethyddiaeth a diwydiant, pŵer a phrotest, heddwch, gwrthdaro a chydweithrediad, chwyldro, datganoli ac ymerodraeth

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaeth y Prif Weinidog benodi Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar henebion cyhoeddus, enwau strydoedd ac enwau adeiladau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r fasnach mewn caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, a hefyd yn cyffwrdd â chyfraniadau hanesyddol pobl o dreftadaeth Ddu at fywyd Cymru. Amcan yr archwiliad oedd casglu ac adolygu'r dystiolaeth, ac ar ôl hynny roedd y Grŵp i fod i nodi materion ar gyfer ail gam posibl. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys aelodau annibynnol dan arweiniad Gaynor Legall gyda chefnogaeth swyddog prosiect a swyddogion yn Cadw.

Mae'r adroddiad, y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, yn nodi 209 o henebion, adeiladau neu enwau strydoedd, wedi'u lleoli ym mhob rhan o Gymru, sy'n coffáu pobl a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chaethwasiaeth a'r fasnach mewn caethweision neu a oedd yn gwrthwynebu ei diddymu. Mae'r ddogfen yn nodi mai ei nod yw casglu gwybodaeth, nid rhoi set o atebion.

Dyweddodd y Prif Weinidog, mewn datganiad ysgrifenedig ynghlyn â chyhoeddi'r archwiliad:

dyma ran gyntaf gwaith llawer mwy cynhwysfawr o gydystyried sut rydym yn symud ymlaen gyda'r wybodaeth hon wrth i ni geisio anrhyneddud a dathlu ein cymunedau amrywiol. Ni fyddaf yn ceisio rhagweld unrhyw argymhellion a allai ddeillio o'r gwaith ehangach hwn, ond rhaid i'r archwiliad hwn fod yn fan cychwyn i sgwrs agored gyda'n cymunedau.

### 3. Patagonia

Ym 1865, hwyliodd y garfan gyntaf o ymsefydlwyr i Batagonia. Dan arweiniad y Parchedig Michael D Jones, eu nod oedd creu trefedigaeth newydd lle y gellid cadw diwylliant, iaith a chrefydd anghydffurfiol Brotestanaidd yn y Gymraeg yn rhydd o ddylanwad Lloegr. Dewisodd y Parchedig Jones, gweinidog anghydffurfiol, leoliad anghysbell oherwydd ei fod yn credu bod Cymry a oedd yn ymfudo i rannau o'r byd Saesneg eu hiaith, fel yr Unol Daleithiau, yn cael eu cymhathu yn rhy hawdd ac yn colli eu harferion, eu hiaith a'u crefydd.

Mae nifer o erthyglau diweddar wedi awgrymu, er gwaethaf y cyfeillgarwch rhwng y Cymry a ymsefydlodd a'r bobl fridorol, nad oedd effaith y Wladfa yn gwbl ddiniwed:

- [The Welsh Way of Colonisation in Patagonia: The International Politics of Moral Superiority \(tandfonline.com\)](#)
- [Not that kind of settlement - Institute of Welsh Affairs](#)

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1084  
Ein cyf/Our ref KW/06770/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-1084 Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia.

Un o'r pedwar diben yn ein Cwricwlwm newydd i Gymru o 2022 ymlaen yw i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu i fod yn ddinasyydion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd, sy'n wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol, ac sydd hefyd yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.

Mae'r pedwar diben yn rhan o'r fframwaith statudol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys elfennau gorfodol gan gynnwys y datganiadau o'r Hyn sy'n bwysig ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.

Un o'r datganiadau ynghylch yr hyn sy'n bwysig i faes Dyniaethau yw "Bydd dysgwyr yn ystyried sut mae lleoedd, cymunedau a chymdeithasau yn datblygu dros amser, gan brofi parhad a newid sydd wedi effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, ac sy'n parhau i effeithio arnynt. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i feithrin dealtwriaeth o achosion, canlyniadau ac arwyddocâd y newidiadau a'r rhyngberthnasau sydd wedi llywio cymdeithasau ar wahanol lefelau."

Un arall o ddatganiadau yr hyn sy'n bwysig ar gyfer Dyniaethau yw "Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol". Mae'r elfen hon o'r Maes yn annog dysgwyr i ymchwilio i gysyniadau, gan gynnwys dinasyddiaeth, awdurdod a llywodraethiant, rhyng-gysylltiad, cyflawnder a chydraddoldeb, menter, hawliau, a chyfrifoldeb a gweithredu cymdeithasol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 80  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae iteriad cyntaf canllawiau'r [Cwricwlwm i Gymru](#) a'r [Fframwaith](#) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn dweud yn glir ei bod yn bwysig i gwricwla ysgolion adlewyrchu ein treftadaeth ddiwylliannol a'n hamrywiaeth, ein hieithoedd a gwerthoedd, hanesion a thraddodiadau ein cymunedau a'n holl bobl. Dechreuir addysgu'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022.

Penderfynir ar Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar lefel genedlaethol ac mae'n cynnwys gofynion y cwricwlwm, a amlinellir mewn deddfwriaeth, ac ystod o ganllawiau ategol. Mae'r Fframwaith yn rhoi cyfle i bob ysgol yng Nghymru gynllunio eu cwricwlwm eu hunain o fewn dull cenedlaethol sy'n sicrhau lefel o gysondeb.

Mae'n annog ysgolion i adeiladu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu dysgwyr yng nghyd-destun y pedwar diben a'r dysgu a ddiffinnir ar lefel genedlaethol. Mae'n rhoi lle i ymarferwyr fod yn greadigol a datblygu dysgu ystyrlon drwy ystod o brofiadau a chyd-destunau sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr.

Mater i ysgolion ac ymarferwyr, gan ddefnyddio canllawiau ac adnoddau, yw penderfynu pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol fydd yn cefnogi eu dysgwyr penodol i wireddu'r pedwar diben.

Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys elfennau gorfodol gan gynnwys y datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd yn ofynnol i gwricwlwm pob ysgol gynnwys profiadau dysgu ym mhob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

O fewn Maes y Dyniaethau, rhaid i hyn gynnwys:

- meithrin ymdeimlad o 'Cynefin', o le ac o deimlad o berthyn;
- gwerthfawrogiad o hunaniaeth a threftadaeth;
- ymwybyddiaeth gyson o stori eu hardal, a stori Cymru, er mwyn galluogi dysgwyr i ddod i ddeall natur gymhleth, *luosog* ac amrywiol cymdeithasau, yn y gorffennol a'r presennol;
- ymgysylltu â heriau a chyfleoedd a wynebwyd yn y gorffennol, y rhai a wynebir nawr ac a ragwelir yn y dyfodol o'u safbwyt eu hunain, eu hardaloedd a Chymru.

Bydd y rhain yn elfennau gorfodol o gwricwlwm pob ysgol, ar gyfer pob dysgwr ar bob cam. Ni fydd yn bosibl anwybyddu rôl ganolog a hollbwysig pob hanes – ein hanes lleol a chenedlaethol gan gynnwys hanes Du – yng nghwricwlwm unrhyw ysgol. Rhaid i gwricwlwm ysgol neu leoliad gwmpasu hyn felly. Os na fydd yn gwneud, ni fydd yr ysgol neu'r lleoliad yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Bydd ysgolion yn cael cymorth i ymgysylltu â gweithwyr treftadaeth proffesiynol, amgueddfeydd ac orielau, yn ogystal ag arweinwyr cymunedol a diwylliannol wrth gynllunio eu cwricwlwm, er mwyn cyfoethogi dysgu a phrofiadau pob dysgwr. O fewn y terfynau a nodir yn y canllawiau, bydd gan athrawon yr hyblygrwydd i deilwra cynnwys gwersi i alluogi dysgwyr i archwilio eu Cynefin. Credwn mai dyma'r ffordd orau iddynt ddeall sut y mae eu hunaniaeth leol, eu tirweddu a'u hanesion yn cysylltu â'r rhai ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd gan athrawon y rhyddid i addysgu hanesion niferus ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach ac ni ddylai pori yn straeon pobl a chymunedau Cymru gael ei gyfyngu i wersi hanes yn unig. Mae Cwricwlwm Cymru yn annog dysgwyr i archwilio themâu ar draws y

cwricwlwm; gellir addysgu hanesion amrywiol pobl Cymru nid yn unig mewn meysydd fel y Dyniaethau: leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, ond hefyd Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae hawliau dynol, tegwch ac amrywiaeth yn themâu trawsbynciol a ddylai fod yn rhan annatod o feisydd dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r canllawiau ar [themâu trawsbynciol](#) o fewn y cwricwlwm yn esbonio sut y dylai fod gan ysgolion ac ymarferwyr fethodoleg ar gyfer cynllunio cwricwlwm sy'n cynnwys, lle bo'n briodol, gyfleoedd i ddysgwyr ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhngwladol a datblygu dealltwriaeth o addysg cydberthynas a rhywioldeb, addysg am hawliau dynol ac amrywiaeth, a phrofiadau ym maes gyrfaedd a gwaith.

Fel y gwyddoch, penodwyd yr Athro Charlotte Williams OBE, i gadeirio Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd yn yr haf. Mae gwaith y Grŵp yn ymwneud â hanes pobl dduon, ond mae'n mynd y tu hwnt i hynny, i ystyried ystod o ethnigrwydd lleiafrifol a rhan pob un yn stori Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys ymarferwyr ac unigolion profiadol sydd wedi cyfrannu at hanes pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a hanes Cymru

Mae gwaith y Grŵp yn cael ei gyflawni fesul cam, ac felly mae wedi dechrau cyfrannu at yr addysgu sy'n digwydd y flwyddyn academaidd hon. Yn ystod cam cyntaf y prosiect, edrychodd y Gweithgor ar adnoddau addysgu. Mae wedi cynnal adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o addysgu themâu sy'n ymwneud â chymunedau a chynefinoedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ym mhob rhan o'r cwricwlwm, a arweiniodd at gyhoeddi [adroddiad interim](#) ar 19 Tachwedd.

Mae'r disgwyliadau cyffredin a nodir yng *Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn adlewyrchu y bydd ysgolion wedi cyrraedd gwahanol fannau wrth gynllunio eu cwricwlwm. Ei nod yw arwain gwaith ysgolion waeth ble maent ar eu taith. Mae'n caniatáu i ysgolion symud ar gyflymder sy'n briodol iddynt, gan ganiatáu iddynt ymateb i heriau COVID-19 tra hefyd yn eu cefnogi i baratoi yn y tymor hwy ar gyfer diwygio.

Er mwyn helpu i sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd, byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n manylu ar y cymorth y gall ysgolion ei ddisgwyli gan y Llywodraeth a'r system addysg ehangach yn y cyfnod cyn cyflwyno'r cwricwlwm ym mis Medi 2022.

Fel rhan o'r cynllun gweithredu, byddwn yn amlinellu cynlluniau ar gyfer rhwydwaith cenedlaethol i helpu i'w roi ar waith. Bydd yn tynnu ynghyd ymarferwyr, arbenigwyr a rhanddeiliaid ehangach er mwyn:


- Datrys problemau a mynd i'r afael â chwestiynau gweithredu drwy gydadeiladu;
- Rhannu dealltwriaeth ac arbenigedd ar draws y proffesiwn;
- Casglu gwybodaeth a thynnau ynghyd safbwytiau er mwyn deall cynnydd; nodi problemau a llywio cymorth; a
- Meithrin perthynas rhwng ymarferwyr, arbenigwyr a rhanddeiliaid ehangach.

Bydd yr adnoddau, y cymorth a'r arweiniad sy'n cael eu datblygu i gefnogi'r cwricwlwm newydd yn grymuso ysgolion i gyflwyno sesiynau dysgu ystyrlon am hanes Cymru a'i chymunedau amrywiol ym mhob maes dysgu a phrofiad ar draws y cwricwlwm. Rhan o swyddogaeth y rhwydwaith cenedlaethol fydd adnabod blychau nid yn unig yn yr adnoddau BAME a Hanes Cymru, ond ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd, a helpu ysgolion i roi'r

cwricwlwm newydd ar waith. Byddwn hefyd yn creu adnoddau pellach, a fydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau a phynciau allweddol yn hanesion Cymru a'r byd. Bydd yr adnoddau hyn yn galluogi athrawon i ddatblygu eu cwricwla eu hunain.

Bydd Estyn hefyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar ei adolygiad o addysgu hanes ac amrywiaeth Cymru mewn ysgolion y flwyddyn nesaf. Bydd ei ganfyddiadau yn ein helpu i gomisiynu adnoddau pellach, a fydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau a phynciau allweddol yn hanesion Cymru a'r byd, i sicrhau bod athrawon yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

## Eitem 2.7

P-05-1098 Dylai rôl Cymru yn hanes trefedigaethol Prydain fod yn bwnc gorfodol mewn ysgolion

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Anthony Cusack, ar ôl casglu cyfanswm o 50 llofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Ar hyn o bryd mae'r ddadl ynghylch hil yn flaenllaw ym meddyliau pawb.

Mae'r rhan fwyaf o'r poblogaeth yn wyn, sy'n golygu ein bod mewn sefyllfa ffodus oherwydd mae meddwl am hil yn fater o ddewis. I lawer yn y gymuned BAME nid dewis yw hwn, ond ffaith a wynebir bob dydd. Chwaraeodd Cymru a phobl Cymru ran weithredol yn hanes trefedigaethol Prydain. Yn ddiweddarach, dathlwyd ffigurau fel Thomas Picton gyda cherfluniau.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r rhan hon o'n hanes yn llawn cymhlethdodau ac mae llawer o wirioneddau anghyfforddus y mae'n rhaid i ni fel poblogaeth fynd i'r afael â nhw a chraffu arnynt. Mae llawer o bobl o'r farn bod hiliaeth a gwahaniaethu ar sail hil yn broblem mewn gwledydd eraill ond nid yma. Rwy'n credu bod cysylltiad cryf rhwng hyn a diffyg addysg am hanes trefedigaethol y wlad hon.

Mae deiseb debyg yn casglu llofnodion ac yn galw ar lywodraeth y DU i weithredu. Rwy'n credu y dylem hefyd fynd i'r afael â hyn yma fel mater datganoledig.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

# Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14837

Rhif y ddeiseb: P-05-1098

Teitl y ddeiseb: Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia

Geiriad y ddeiseb: Rhaid cynnwys sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia yn y cwricwlwm. Mae'r hanes yn cael ei gyfleo fel uniad hyfryd dwy wlad dra gwahanol ond mewn gwirionedd, mae'n anwybyddu hanes hawliau dynol. Roedd bob amser yn cael ei addysgu fel ffordd o gadw'r iaith Gymraeg yn fyw drwy ei chyflwyno i un o wledydd De America, ond mewn gwirionedd cafodd pobl Cymru eu cyflwyno i Batagonia i "wareiddio" cymunedau, sy'n deillio o ideolegau hiliol ac nid yw hynny'n cael ei addysgu mewn ysgolion.



## 1. Y cwricwlwm newydd

Yn amodol ar fod y Senedd yn pasio'r ddeddfwriaeth, cyflwynir y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer plant 3-16 oed ym mhob ysgol a gynhelir, a phob lleoliad meithrin a ariennir yn gyhoeddus, o fis Medi 2022 yn raddol. Cyflwynwyd **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r Bil yn nodi beth yw pedwar diben y cwricwlwm:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru **wedi'i seilio ar ddibenion yn hytrach na chynnwys**. Nid yw cynnwys dysgu penodol yn cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol presennol.

Mae'r Bil yn nodi chwe Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r elfennau gorfodol ynddynt. Dyma'r Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yr elfennau gorfodol o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad fydd: Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chymraeg

Caiff hanes ei addysgu ym **Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau**. Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau hefyd yn cynnwys daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Nid yw'r cwricwlwm newydd yn rhagnadol ac nid yw'n cynnwys rhestr o bynciau y mae'n rhaid i bob ysgol eu haddysgu.

Mae'r Bil yn darparu 'Cod yr Hyn sy'n Bwysig' i nodi cysyniadau allweddol dysgu a phrofiad ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (gan gynnwys y Dyniaethau) a bydd yn rhaid i gwricwla ysgolion gwmpasu pob un o'r cysyniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' yn nogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru. Bwriad hyn yw darparu'r 'dull cenedlaethol' a fydd, yn ôl y Gweinidog Addysg, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Cyhoeddwyd y canllawiau statudol dros dro ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ym mis Ionawr 2020.

Mae'r Canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain gan Lywodraeth Cymru (rhan o'r canllawiau statudol) yn cynnwys rhai canllawiau penodol i athrawon wrth gynllunio hanes yn eu cwricwlwm. Mae hyn yn nodi y dylai'r gwaith o gynllunio cwricwlwm ysgolion (ymhlith pethau eraill):

- ddatblygu cyd-destun cyfoethog ar gyfer archwilio cysyniadau llywodraethiant, economi, grym, arweinyddiaeth, amrywiaeth; diwylliant, ethnigrwydd, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, cyflawnder, hawliau, goresgyniad, ideolegau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, strwythurau a threfniadaeth gymdeithasol, masnach, amaethyddiaeth a diwydiant, pŵer a phrotest, heddwch, gwrthdaro a chydweithrediad, chwyldro, datganoli ac ymerodraeth

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaeth y Prif Weinidog benodi Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar henebion cyhoeddus, enwau strydoedd ac enwau adeiladau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r fasnach mewn caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, a hefyd yn cyffwrdd â chyfraniadau hanesyddol pobl o dreftadaeth Ddu at fywyd Cymru. Amcan yr archwiliad oedd casglu ac adolygu'r dystiolaeth, ac ar ôl hynny roedd y Grŵp i fod i nodi materion ar gyfer ail gam posibl. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys aelodau annibynnol dan arweiniad Gaynor Legall gyda chefnogaeth swyddog prosiect a swyddogion yn Cadw.

Mae'r adroddiad, y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, yn nodi 209 o henebion, adeiladau neu enwau strydoedd, wedi'u lleoli ym mhob rhan o Gymru, sy'n coffáu pobl a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chaethwasiaeth a'r fasnach mewn caethweision neu a oedd yn gwrthwynebu ei diddymu. Mae'r ddogfen yn nodi mai ei nod yw casglu gwybodaeth, nid rhoi set o atebion.

Dyweddodd y Prif Weinidog, mewn datganiad ysgrifenedig ynghlyn â chyhoeddi'r archwiliad:

dyma ran gyntaf gwaith llawer mwy cynhwysfawr o gydystyried sut rydym yn symud ymlaen gyda'r wybodaeth hon wrth i ni geisio anrhyneddud a dathlu ein cymunedau amrywiol. Ni fyddaf yn ceisio rhagweld unrhyw argymhellion a allai ddeillio o'r gwaith ehangach hwn, ond rhaid i'r archwiliad hwn fod yn fan cychwyn i sgwrs agored gyda'n cymunedau.

### 3. Patagonia

Ym 1865, hwyliodd y garfan gyntaf o ymsefydlwyr i Batagonia. Dan arweiniad y Parchedig Michael D Jones, eu nod oedd creu trefedigaeth newydd lle y gellid cadw diwylliant, iaith a chrefydd anghydffurfiol Brotestanaidd yn y Gymraeg yn rhydd o ddylanwad Lloegr. Dewisodd y Parchedig Jones, gweinidog anghydffurfiol, leoliad anghysbell oherwydd ei fod yn credu bod Cymry a oedd yn ymfudo i rannau o'r byd Saesneg eu hiaith, fel yr Unol Daleithiau, yn cael eu cymhathu yn rhy hawdd ac yn colli eu harferion, eu hiaith a'u crefydd.

Mae nifer o erthyglau diweddar wedi awgrymu, er gwaethaf y cyfeillgarwch rhwng y Cymry a ymsefydlodd a'r bobl fridorol, nad oedd effaith y Wladfa yn gwbl ddiniwed:

- [The Welsh Way of Colonisation in Patagonia: The International Politics of Moral Superiority \(tandfonline.com\)](#)
- [Not that kind of settlement - Institute of Welsh Affairs](#)

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1098  
Ein cyf/Our ref KW/06840/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders MS  
Chair of Petitions Committee  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

15 December 2020

Dear Janet,

Thank you for your correspondence dated 30 November relating to Petition P-05-1098 Make Wales' role in British colonial history a compulsory school subject.

It's important that learners in Wales are aware of the role Wales played in British colonial history including the sometimes uncomfortable truths about our past.

One of the four purposes in our new curriculum in Wales from 2022 is for all children and young people to develop as ethical, informed citizens of Wales and the world, who are knowledgeable about their culture, community, society and the world now and in the past, and also respect the needs and rights of others as a member of a diverse society.

These four purposes, are a part of the statutory framework for the Curriculum for Wales. The Curriculum for Wales framework includes mandatory elements, including statements of What Matters for each Area of Learning and Experiences (AoLE).

One of the statements of What Matters for Humanities, is "Human societies are complex and diverse, and shaped by human actions and beliefs". Learners will explore how places, communities and societies evolve over time, experiencing continuity and change that has affected, and continues to affect, their own and other people's lives. This will help learners build an understanding of the causes, consequences and significance of the changes and interrelationships that have shaped societies at different levels of development.

Another statement of What Matters for Humanities is "informed, self-aware citizens engage with the challenges and opportunities that face humanity, and are able to take considered and ethical action". This aspect of the Area encourages learners to explore concepts including citizenship, authority and governance, interconnectedness, justice and equality, enterprise, rights and social action and responsibility.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The first iteration of the Curriculum for Wales guidance and Framework published in January 2020 is clear about the importance of school curricula in general reflecting our cultural heritage and diversity, our languages and the values, histories and traditions of our communities and all our people. Full rollout of the new curriculum will commence in September 2022.

The Curriculum for Wales Framework is determined nationally and includes both the curriculum requirements, which will be set out in legislation, and a range of supporting guidance. The Framework gives every school in Wales the opportunity to design their own curriculum within a national approach that ensures a level of consistency.

It encourages schools to build their own vision for their learners within the context of the four purposes and the learning defined at a national level. It provides the space for practitioners to be creative and to develop meaningful learning through a range of experiences and contexts that meet the needs of their learners.

It is for schools and practitioners, drawing on guidance and resources, to decide what specific experiences, knowledge and skills will support their specific learners to realise the four purposes.

The new curriculum **will** contain mandatory elements including the statements of What Matters for each Area of Learning and Experience. Every school's curriculum will be **required** to include learning in each of the statements of what matters.

Within the Humanities Area, this must include:

- cultivating a sense of 'Cynefin', a place and sense of belonging;
- an appreciation of identity and heritage;
- a consistent exposure to the story of their locality and the story of Wales, developing an understanding of the complex, pluralistic and diverse nature of societies, past and present; and
- engagement with the past, contemporary and anticipated challenges and opportunities facing them, their communities and Wales.

These will be non-negotiable elements of every school's curriculum, for every learner at every stage. It will simply not be possible to ignore the central and critical role of all histories – our local and national history – in a school's curriculum. A school or setting's curriculum must therefore encompass this. If it does not, the school or setting will not be fulfilling its duties.

Schools will be supported, to engage with heritage professionals, museums and galleries, as well as community and cultural leaders when designing their curriculum, in order to enrich the learning and experiences for all learners. Within the parameters set out in the guidance, teachers will have the flexibility to tailor the content of lessons to allow learners to explore their Cynefin. We believe that this is the best way for them to understand how their local identities, landscapes and histories connect with those on the national and international stage.

Teachers will have the freedom to teach the many and diverse histories of Wales and the wider world and exploring the stories of the people and communities of Wales should not simply be limited to history lessons. The Curriculum for Wales encourages learners to

explore themes across the curriculum; the diverse histories of the people of Wales can be taught not only in areas such as Humanities; Languages, Literacy and Communication, but also Science and Technology.

Learning about human rights, equity, and diversity are cross-cutting themes which should be embedded within learning across the curriculum. The guidance on cross-cutting themes for the curriculum explains how schools and practitioners should have a methodology for designing a curriculum which incorporates, where appropriate, opportunities which allow learners to consider local, national and international contexts and to develop understanding of relationships and sexuality education, human rights education and diversity, and careers and work-related experiences.

As you are aware Professor Charlotte Williams OBE, was appointed to chair a Black, Asian and Minority Ethnic Communities (BAME), Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group in the summer. The work of the Group includes, but goes beyond, black history to consider a range of minority ethnicities as part of the story of Wales, and membership comprises experienced practitioners and contributors to BAME and Welsh history.

The Group's work is being carried out in phases, which has allowed it to start feeding into teaching for this academic year. In the first phase of the project, the Working Group looked at teaching resources. They have undertaken a review of the resources currently available to support the teaching of themes relating to BAME communities and Cynefin across all parts of the curriculum, which culminated in an [interim report](#) which was published on 19 November.

The shared expectations set out in *Curriculum for Wales: the journey to 2022*, published in October, reflect that schools will be in different places in designing their curriculum. It aims to guide schools' work regardless of where they are in their journey. It allows schools to move at a pace appropriate to them, allowing them to respond to the challenges of COVID-19 while also supporting them to prepare longer term for reform.

To help make sure schools are ready for the new curriculum, we will publish an implementation plan detailing the support schools can expect from Government and the wider education system in the run-up to curriculum roll-out in September 2022.

As part of the implementation plan, we'll set out our plans for a **national network** to support implementation. This will bring together teachers, experts and other stakeholders, in order to:


- Use co-construction to problem-solve and tackle barriers to implementation;
- Share understanding and expertise across the profession;
- Gather intelligence and bring together views to understand progress; identify issues and inform support; and
- Broker relationships between practitioners and wider stakeholders.

The resources, support and guidance being developed to support the new curriculum will empower schools to deliver meaningful learning about the histories of Wales and its diverse communities in every area of learning and experience across the curriculum. Part of the role of the national network will also be to identify gaps in resources not only for BAME contributions and experiences and the Histories of Wales, but all parts of the new curriculum and to support schools in delivering the new curriculum. We will also create further

resources, which will refer to key events and topics in the histories of Wales and the world. These resources will enable teachers to develop their own curricula.

Estyn will also report to Welsh Government on their review of the teaching of Welsh history and diversity in schools next year. Its findings will help us to commission further resources, which will refer to key events and topics in the histories of Wales and the world to ensure that teachers have the support they need to deliver the new curriculum successfully.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Kirsty Williams".

**Kirsty Williams AS/MS**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

### P-05-1086 Dylid creu Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Hanes a Threftadaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Yasmin Begum, ar ôl casglu cyfanswm o 490 llofnodion.

#### Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn deisebu Senedd Cymru i greu amgueddfa i ddathlu hanes pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru.

Fel rhan o'r sefydliad cenedlaethol, rydym yn gobeithio y bydd yn fod o gadw treftadaeth gyfoethog Tiger Bay ac yn gartref i Archif Tiger Bay.

#### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

# P-05-1086 Dylid creu Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Hanes a Threftadaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14837-7

Rhif y ddeiseb: P-05-1086

Teitl y ddeiseb: Dylid creu Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Hanes a Threftadaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Geiriad y ddeiseb: Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn deisебu Senedd Cymru i greu amgueddfa i ddathlu hanes pobl dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig Cymru.

Fel rhan o'r sefydliad cenedlaethol, rydym yn gobeithio y bydd yn fod o gadw treftadaeth gyfoethog Tiger Bay ac yn gartref i Archif Tiger Bay.



# 1. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, mae Llywodraeth Cymru yn dweud:

Mae hanes ein cymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn rhan annatod o hanes Cymru. Er mwyn cyflwyno'r hanesion hyn yn y cyd-destun hanfodol hwn mae angen ymdrech ar y cyd gan ein cyrff treftadaeth ddiwylliannol ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol, yn hytrach nag un sefydliad.

